
Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â gwirio a phrosesu hawliadau am dreuliau gan bartïon sy'n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd, er enghraifft tystion a rheithwyr.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, thribiwnlysoedd ac erlyniadau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. sicrhau bod hawliadau am ad-dalu treuliau yn gyflawn, yn unol â gofynion sefydliadol
2. cadarnhau bod yr hawlwr wedi mynychu achosion y caiff ad-daliadau eu hawlio amdanynt, yn unol â gofynion sefydliadol
3. cadarnhau bod hawlwr yn gymwys am ad-daliadau, yn unol â gofynion sefydliadol
4. cadarnhau bod y symiau sy'n cael eu hawlio yn gywir ac yn cyd-fynd â'r symiau sy'n daladwy
5. nodi dogfennau anghyflawn neu anghysondebau, yn unol â gofynion sefydliadol
6. mynd i'r afael â dogfennau anghyflawn neu anghysondebau, yn unol â gofynion sefydliadol
7. cyfeirio ymholiadau ynghylch hawliadau y tu hwnt i'ch awdurdod at eich rheolwr llinell, yn unol â gofynion sefydliadol
8. hysbysu hawlwr am hawliadau annilys gan amlinellu'r rhesymau pam, yn unol â gofynion sefydliadol
9. mynd i'r afael ag ymholiadau gan bartïon sy'n mynychu achosion o ran cymhwyster am ad-dalu treuliau, yn unol â gofynion sefydliadol
10. prosesu hawliadau dilys am daliadau, yn unol â gofynion sefydliadol
11. cynnal cofnodion o hawliadau a wneir, yn unol â gofynion sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer gwirio a phrosesu hawliadau am dreuliau gan y rheiny sy'n mynychu'r llys 2. meini prawf y mae'n rhaid i hawlwyd eu bodloni i gymhwyso ar gyfer hawlio treuliau 3. y mathau o dreuliau y gellir eu hawlio, a lwfansau ar gyfer pob un 4. sut i hysbysu hawlwyd am ddogfennau anghyflawn neu hawliadau annilys, a phwysigrwydd gwneud hyn mewn modd proffesiynol 5. graddfeydd amser ar gyfer prosesu a thalu treuliau 6. gofynion sefydliadol ar gyfer cofnodi hawliadau treuliau 7. terfynau eich awdurdod a sut i ddelio â hawliadau ac ymholiadau y tu allan i hyn

SFJDC6

Prosesu hawliadau am dreuliau yn ymwneud â mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd



Datblygwyd gan	Skills for Justice
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Chwef 2023
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau er Cyfiawnder
RCU gwreiddiol	SFJ DC6
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys
Cyfres/Set	Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erllyniadau
Geiriau Allweddol	llys; tribiwnlys; achos; treuliau; traul; hawliadau; tystion; rheithwyr
